Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044/9

Rhif y ddeiseb: P-06-1209

Teitl y ddeiseb: Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ers cryn amser bellach ei bod hi'n dasg anodd nodi gofalwyr di-dâl, felly mae'r ddeiseb hon yn galw am greu cofrestr genedlaethol o ofalwyr i'w gwneud yn haws nodi pwy yw'r gofalwyr di-dâl.

1. Cefndir

Mae rhanddeiliaid wedi bod yn galw ers blynyddoedd lawer am i ofalwyr di-dâl gael eu hadnabod yn well, er mwyn gwella gallu gofalwyr i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth. Yn ôl ymchwil gan Ofalwyr Cymru, mae mwyafrif helaeth y gofalwyr heb gael asesiad o'r hanghenion, ac nid ydynt yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen. Yn ôl adroddiad diweddaraf Gofalwyr Cymru, dim ond 15 y cant o ofalwyr yng Nghymru oedd wedi cael asesiad o'u hanghenion, er bod gan ofalwyr hawl i gael asesiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Dyma a ddywedodd Gofalwyr Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn y Bumed Senedd:

> We would like to see better systematic identification of carers through the NHS; we'd like to see more responsibility on the NHS to identify carers. And also within local authorities, when carers make contact, that they are identified as a carer, and there's clarity about what that carer can access. We would like to see minimum service expectations for carers across the whole of Wales, and carers being viewed as key workers—they've been absolutely essential through this pandemic.

Mae Gofalwyr Cymru wedi galw am i gofrestr genedlaethol o ofalwyr gael ei chreu erbyn 2023 fel y gall gwasanaethau weld pwy yw'r gofalwyr lleol a chynnig cyngor a chefnogaeth iddynt.

2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Dywed y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod darparu gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n cydnabod bod adnabod gofalwyr yn gynnar yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r uchelgais hon.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at yr ystod o weithgareddau sydd ar y gweill i helpu gofalwyr i nodi'r ffaith eu bod yn ofalwyr a chael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth. Ond mae'n nodi y bydd yn parhau i ystyried a fyddai cyflwyno cofrestr yn fodd o ategu'r gwaith hwn ymhellach.

Dywed y Dirprwy Weinidog ei bod wedi gofyn i swyddogion roi'r awgrym ar gyfer cofrestr gerbron y Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac y byddai'n hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Deisebau am ganlyniad y trafodaethau cychwynnol hyn.

Dywed Llywodraeth Cymru hefyd fod gwaith i wella'r ffyrdd o adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar eisoes yn mynd rhagddo mewn amrywiol ffrydiau gwaith, gan gynnwys ymrwymiadau yn y Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl; 'Ymwybyddiaeth o Ofalwyr', sef Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy; ail gam ei hymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr; a'i chynlluniau i greu cerdyn adnabod cenedlaethol gydag awdurdodau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc. Dywed Llywodraeth Cymru hefyd y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gall gwasanaethau statudol nodi a chofnodi gwybodaeth am ofalwyr di-dâl yn well.

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi bod un o weithgorau Llywodraeth Cymru ar gynllun cyflawni'r strategaeth gofalwyr di-dâl wedi ystyried yr awgrym ar gyfer sefydlu cronfa ddata neu gofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ystod ei drafodaethau cynnar ynghylch camau gweithredu o dan y cynllun cyflawni. Dywed ei bod yn amlwg bod angen ystyriaeth fanylach i gadarnhau a fyddai cofrestr yn ychwanegu gwerth at y gwaith a amlinellir uchod a'r mecanweithiau sydd eisoes ar waith.

> For example, a number of GPs across Wales allow unpaid carers to register their caring role with them, and carers can also make themselves known to local carer charities, many of which are commissioned by local authorities to provide support on their behalf. I am also keen to understand how a register would comply with privacy and personal information regulations

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.